**Cyfeirnod:** IR907

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Chwefror 2024

# Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru

Diolch am eich llythyr, a anfonwyd drwy neges e-bost, dyddiedig 24 Ionawr 2024, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, yn benodol yr *"adroddiadau diweddaraf ar bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, gan gynnwys cyfrifon o'r pum mlynedd diwethaf neu'r archwiliad diweddaraf o'u gwariant a'u cyllid".*

Nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru unrhyw swyddogaethau statudol sy'n ymwneud yn benodol â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, felly nid yw'n archwilio eu cyfrifon ac ni chedwir y wybodaeth y gofynnwyd amdani fel y cyfryw. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi bod gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl mewn perthynas â rhaglenni gwaith gwerth am arian ehangach, sy'n cynnwys archwilio materion sy'n berthnasol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r llifau arian iddynt. Mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac mae adroddiadau cysylltiedig a allai fod o ddiddordeb ar gael drwy'r dolenni isod:

Y Gronfa Gofal Integredig | Archwilio Cymru

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro – Y Gronfa Gofal Integredig | Archwilio Cymru

Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Archwilio Cymru

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg – Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol – Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol | Archwilio Cymru

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth